20.10.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Tudur Owen wedi ei enwi fel llais Gogglebocs Cymru

Mae S4C wedi cyhoeddi y bydd **Gogglebocs Cymru** yn bwrw'r sgrin am y tro cyntaf ar nos Fercher 2 Tachwedd.

Daw hyn yn sgil y newyddion fod Studio Lambert wedi rhyddhau fformat rhaglen hynod boblogaidd Channel 4, Gogglebox, o dan drwydded yn egsgliwsif i S4C.

Bellach ar yr 20fed cyfres, mae Gogglebox yn dal i fynd o nerth i nerth a dyma gyfle euraidd i wylio cyfres newydd sbon gyda gogwydd a chast hollol Gymreig.

A phwy well i leisio, na un o leisiau amlycaf Cymru, y cyflwynydd a'r digrifwr Tudur Owen?

"Dwi'n wyliwr brwd o deledu ac yn mwynhau Gogglebox ers blynyddoedd," meddai Tudur. "Ond prin iawn fyddai'n gwylio teledu byw. Mae arferion gwylio pawb wedi newid rŵan tydi. Pob tro dwi'n rhoi'r teledu 'mlaen, dwi'n rhyfeddu gyda'r dewis. Weithiau, byddai jyst yn mynd i 'neud panad am mod i ddim yn gwybod ble i ddechrau.

"Yn aml iawn, mi fyddai'n defnyddio Gogglebox fel argymhellant o beth i'w wylio. Dwi 'di gweld lot o gyfresi da o'i herwydd - a gobeithio neith hynny weithio i raglenni Cymreig hefyd, trwy roi sylw a *spotlight* arnyn nhw."

Bydd mwyafrif helaeth o arlwy cartrefi **Gogglebocs Cymru** yn dod o Gymru. Bydd ambell gynhyrchiad o du hwnt yn ymddangos hefyd fel bod trafodaethau ac ymatebion y cast yn adlewyrchu yr hyn sy'n digwydd mewn cartrefi ledled y byd.

"Mae Gogglebox wedi llwyddo i sefyll ar ei draed ei hun, ond mae hefyd wedi helpu rhaglenni sy'n boddi mewn môr o ddewis. Mae 'na gymaint o stwff gwych yn cael ei gynhyrchu yn Gymru, bydd hyn yn ffordd arbennig o dynnu sylw at raglenni bysa pobl falla ddim yn sylwi arnyn nhw fel arall.

Mae Tudur yn awyddus i amlygu mai rhan fach iawn sydd gydag ef i'w chwarae.

"Dwi wedi rhyfeddu ar y gwaith sy'n mynd mewn i'r cynhyrchu. Mae Cwmni Da a Chwarel gydag oriau o dapiau i fynd trwy cyn y bydda i yn cael edit bras o'r rhaglen, a chynnig fy llinellau a sylwadau. Ond dwi ddim i fod yn rhy flaenllaw wrth gwrs. O wylio rhaglen Channel 4, cynnal a phontio o un darn i'r llall mae llais Craig (Cash). A dyna ydi'n swydd i, cadw pethau i fynd.

"Mae llwyddiant y gyfres yn dibynnu ar y castio - cael y cymeriadau iawn. Dwi ddim yn gwybod pwy ydi nhw eto, mond eu bod nhw'n wynebau newydd. Dwi'n edrych 'mlaen 'cwrdd' a nhw, ac fel unrhyw berthynas mae'n mynd i gymryd amser i ddod i'w nabod nhw.

"Rhan fawr o lwyddiant Gogglebox, ydi fod nhw 'di ffeindio pobl mae pobl yn hoffi. Mae gan bawb eu ffefrynnau. Gan fod ni'n mynd mewn i'w cartrefi nhw, mae'n bwysig bod ni isio bod yna hefo nhw a bod y cymeriadau yn hwyl. Maen nhw'n gadael ni fynd i'w tai i fynd trwy'r doniol a'r dwys hefo nhw - mae'n berthynas mor bersonol.

“Dwi’n credu fod ambell aelwyd tu allan i Gymru ac mae hynny’n grêt. Mae ‘na gymaint o Gymru yn byw i ffwrdd. Tydi ffiniau Cymru ddim yn llinell ar y map. Mae’r Cymry ymhob man, ac mae’n dangos fod y rhaglenni ar gael ymhob man hefyd.”

Mae’r gyfres yn rhan o ddathliadau pen-blwydd S4C, sy’n nodi 40 mlynedd o ddarlledu.

Meddai Llinos Griffin-Williams, Prif Swyddog Cynnwys S4C: “Mae’n bleser mawr cael **Gogglebocs Cymru** fel rhan o ddathliadau 40 S4C. Mae’n fformat deledu gwych, sydd wedi dal dychymyg y genedl.

“Be’n well na rhaglen sy’n canolbwyntio ar sêr Cymru ar lawr gwlad? Bydd **Gogglebocs Cymru** yn ymestyn croeso i aelwydydd o amgylch y wlad a thu hwnt. Cawn gwrdd â sawl cymeriad sy’n adlewyrchu Cymru gyfoes yn ei holl ogoniant. Wynebau newydd sy’n rhoi llais i’n cymunedau amrywiol.

Er nad yw manylion y cast wedi’u rhyddhau eto, rydym ar ddeall bydd camerâu yn ymweld â chartrefi yn ardaloedd Brynaman, Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Crymych, Dinbych, Llanelli, Maerdy, Manceinion, Pen-y-bont, Pwllheli, Talsarnau, Tregarth a Wrecsam dros y dyddiau nesa i ffilmio y benod cyntaf erioed.

“Cofiwch hefyd fod y drws wastad ar agor o ran castio, os ydych chi’n gweld eich hun fel rhywun bydd pobl yn mwynhau gwylio,” ychwanega Llinos.

Ac fel rhywun sydd wedi hen arfer bod yn ffigwr cyhoeddus trwy ei waith teledu, radio a stand-yp – oes gan Tudur unrhyw gyngor i’r cast?

“Bydd o’n brofiad od iawn i ddechrau. Da ni jyst isio gweld nhw yn bod ynddyn nhw eu hunain. Nhw ydi’n llygadai ni ar y teledu mewn ffordd.

“Siawns fydd o’n anodd, siŵr o fod bydd lamp a chamera yn y lolfa ond cofiwch ymateb yn onest, mwynhau cwmni eich gilydd a pheidio bod rhy hunanymwybodol. A gobeithio newch chi fwynhau'r profiad.”

“Trio peidio bwyta gormod fydda i, dyna di’n wendid i - stwffio. Ti’n gweld lot o’r teuluoedd hefo platiad o gacenni. Mae gen i rywbeth ar y go trwy’r amser - panad fel arfer, neu falla glasiad o win, dibynnu pa noson o’r wythnos.”

Cofiwch gael y byrbrydau blasus a diodydd di-ri i mewn, yn barod at bennod cyntaf erioed **Gogglebocs Cymru** ar nos Fercher 2 Tachwedd ar S4C, S4C Clic a BBC iPlayer.

**Gogglebocs Cymru**
**Dydd Mercher 2 Tachwedd, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Chwarel a Cwmni Da ar gyfer S4C**

20.10.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Tudur Owen announced as the voice of Gogglebocs Cymru

S4C has announced that **Gogglebocs Cymru** will hit the screen for the first time on Wednesday 2 November.

This follows the news that Studio Lambert has released the format of Channel 4's hugely popular programme, Gogglebox, under licence exclusively to S4C.

Now on its 20th series, Gogglebox continues to go from strength to strength and this addition gives a golden opportunity to watch a brand new version with a Welsh twist, and all-Welsh cast.

It has also been revealed that presenter and comedian Tudur Owen will be the voice of **Gogglebocs Cymru**.

"I'm an avid TV watcher and have enjoyed Gogglebox for years," said Tudur. "But I rarely watch live television. Everyone's viewing habits have changed now haven't they. Every time I turn on the TV, I'm amazed at the choice. Sometimes, I'll end up just making a cuppa because I don't know where to start.

"I'll often use Gogglebox as an indicator of what to watch. I've watched a lot of good series because of it - and I hope that putting this spotlight on Welsh programmes will help them too."

The majority of Gogglebocs Cymru's offering will be produced in Wales. A few productions from further afield will also appear so that the cast's discussions and reactions can reflect what is happening in homes around the world.

"Gogglebox has managed to stand on its own two feet, whilst showcasing programmes that are drowning in a sea of choice. There's so much great stuff being produced in Wales, this will be a brilliant way of drawing attention to shows people might not notice otherwise.

Tudur is keen to highlight that he only has a small part to play in the grand scheme of things.

"I'm amazed at the work that's involved. Production companies Cwmni Da and Chwarel have hours of tapes to go through before I get a rough edit to work on my lines. But I'm not going to be a prominent part of it of course. From watching the Channel 4 programme, Craig's (Cash) voice is used to host and transition from one piece to another. And that's my job, to keep things moving.

"The success of the series ultimately depends on the casting - getting the right characters on board. I don't know who they are yet, but I know they're new faces. I'm looking forward to 'meeting' them, and like any relationship it's going to take time to get to know them.

"A big part of Gogglebox's success is finding people that other people like. Everyone has their favourites. As we are going into their homes, it's important the characters are fun and we want

to be there with them. They let us into their homes so we can experience the highs and the lows with them - it's such a personal and intense relationship.

"I believe there are one or two households outside of Wales and that's great. Wales' border isn't a line on the map. There are so many Welsh people living all over the place and it's great to show that Wales based programmes are available to watch everywhere."

The series is part of S4C's birthday celebrations, marking 40 years of broadcasting.

Llinos Griffin-Williams, S4C's Chief Content Officer, said: "It's a great pleasure to have **Gogglebocs Cymru** as part of S4C's 40th celebrations. It's a fantastic TV format, which has captured the nation's imagination.

"What better than a programme that brings us Welsh talent at grassroots level? **Gogglebocs Cymru** will extend a warm welcome into households around the country and beyond. We will meet several characters who reflect contemporary Wales in all its glory, new faces that give our diverse communities a voice.

Although cast details haven't been released yet, we understand cameras will visit homes in the Brynamman, Cardiff, Carmarthen, Caernarfon, Crymych, Denbigh, Llanelli, Maerdy, Manchester, Bridgend, Pwllheli, Talsarnau, Tregarth and Wrexham areas over the next few days to film the first ever episode.

"If you see yourself as someone people will enjoy watching, keep in mind that the door is always open for casting," adds Llinos.

And as someone who is used to being a public figure through his extensive television, radio and stand-up work - does Bangor based Tudur have any advice for the cast?

"It will be a very odd experience to begin with. We want to see you being yourselves, you are our eyes on the TV in a way.

"Sure it may be difficult to start, and however strange it is having lights and a camera in your lounge, just remember to respond honestly, enjoy each other's company and don't be too self-conscious. And I really hope you enjoy the experience."

"I will be trying not to eat too much whilst watching, that's my weakness – stuffing my face. You see a lot of the families with a plate full of cakes. I always have something on the go - usually a cup of tea, or maybe a glass of wine, depending which night of the week it is."

Make sure you get your snacks and drinks of choice in, ready for the first ever episode of **Gogglebocs Cymru** on Wednesday 2 November on S4C, S4C Clic and BBC iPlayer.

**Gogglebocs Cymru**
**Wednesday 2 November, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Chwarel and Cwmni Da production for S4C**